



## Annwyl Rhiant / Warcheidwad

Mae Adran Arlwyo'r ysgol yn defnyddio system biometreg heb arian. Mae'r meddalwedd a ddefnyddir yn troi ôl bys eich plentyn yn algorithm Mathemategol, rydym yna'n cael gwared â'r ddelwedd o'r ôl bys. Ni ellir defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei storio i ail-greu delwedd o ôl bys y plentyn. Ar ôl i'ch plentyn adael yr ysgol mae'r data yn cael ei ddileu yn ddiogel.

Mae'n ofynnol i ni gael caniatâd i ddefnyddio data biometreg eich plentyn ar gyfer y system hon.

Mae yna nifer o fanteision i'r system heb arian:

- Mae'n ffordd gyfleus i dalu am brydau ysgol. Dim angen chwilota am newid bob bore.
- Atal disgyblion rhag gwario arian cinio mewn siopau tu allan i dir yr ysgol.
- Lleihau nifer o'r problemau sy'n gysylltiedig â defnyddio arian parod mewn ysgolion h.y. colli arian, lladrad a bwlio.
- Gellir rhwystro cynhwysion alergedd bwyd penodol yn awtomatig.
- Bwyta'n iach yn cael ei annog.
- Lleihad mewn amser ciwio o ganlyniad i wasanaeth cyflymach.
- Dyraniad cinio am ddim yn awtomatig gyda'r disgybl yn aros yn anhysbys
- Mae posib cael adroddiadau manwl i ddadansoddi pob agwedd o'r defnydd a wneir o'r system.

Ni allwn brosesu gwybodaeth biometreg plentyn hyd nes bod o leiaf un rhiant yn cydsynio i'r wybodaeth sy'n cael ei phrosesu, felly mae'n ofynnol eich bod yn rhoi caniatâd i ni brosesu gwybodaeth biometreg eich plentyn ar gyfer y system hon.

**OS YDYCH YN CANIATÂU** i'ch plentyn gofrestru, mae'n bwysig iawn eich bod chi'n llenwi'r ffurflen **ganiatâd** (gweler drosodd) am ddefnyddio gwybodaeth biometrig a'i dychwelyd i swyddfa'r ysgol.

Wrth lofnodi'r ffurflen ganiatâd hon, rydych chi'n awdurdodi Sodexo i brosesu gwybodaeth biometrig eich plentyn at ddibenion defnyddio'r system di-arian hyd nes iddo/iddi adael yr ysgol neu beidio â defnyddio'r system.

Drwy roi'r caniatâd hwn, nid yw'n gytundeb gorfodol a gallwch chi neu'ch plentyn dynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Gallwch wrthwynebu unrhyw brosesu arfaethedig o wybodaeth biometrig eich plentyn yn nes ymlaen neu dynnu'n ôl unrhyw ganiatâd a roddwyd gennych yn flaenorol. Sylwer bod rhaid i unrhyw ganiatâd, tynnu caniatâd neu wrthwynebiad gan riant fod yn ysgrifenedig.

Hyd yn oed os ydych chi wedi cydsynio, gall eich plentyn wrthwynebu neu wrthod ar unrhyw adeg i'w gwybodaeth biometrig gael ei dynnu / ei ddefnyddio. Nid oes rhaid i wrthwynebiad eich plentyn fod yn ysgrifenedig. Byddem yn ei werthfawrogi pe gallech drafod hyn gyda'ch plentyn ac esbonio iddynt y gallant wrthwynebu hyn os dymunant.

**OS NAD YDYCH YN RHOI CANIATÂD** i'ch plentyn gofrestru, mae'n bwysig iawn eich bod chi'n llenwi'r **ffurflen eithrio** (gweler drosodd) a'i dychwelyd i swyddfa'r ysgol. Bydd Sodexo wedyn yn gallu rhoi cerdyn i'ch plentyn ei ddefnyddio yn hytrach na defnyddio delwedd olion bysedd eich plentyn.

## FFURFLEN GANIATÂD/ CONSENT FORM

### FFURFLEN GANIATÂD AR GYFER DEFNYDDIO GWYBODAETH FIOMETREG CONSENT FORM FOR THE USE OF BIOMETRIC INFORMATION

Llenwch y ffurflen isod a'i ddychwelyd i Swyddfa'r Ysgol/Please fill in this form and return to the School Office.

Hoffwn i'm mhlentyn gael ei gofrestru ar gyfer y system Biometreg Heb Arian ac rwy'n cadarnhau fy mod yn ymwybodol y bydd Sodexo yn prosesu gwybodaeth biometrig fy mhlentyn at ddibenion defnyddio'r system ddi-arian ar gyfer prydau ysgol/  
*I wish my child to be included in the Cashless Biometric registration process and confirm that I am aware that Sodexo will process my child's biometric information for the purpose of using the cashless system for school meals.*

Enw'r Disgybl / Name of Pupil: \_\_\_\_\_

Blwyddyn/ Year: \_\_\_\_\_ Dosbarth / Class: \_\_\_\_\_

Enw Rhiant / Gwarcheidwad - Name of Parent / Guardian: \_\_\_\_\_

Llofnod Rhiant / Parent's Signature: \_\_\_\_\_

Llofnod Disgybl / Pupil's Signature: \_\_\_\_\_

## FFURFLEN TYNNU'N ÔL/OPT-OUT FORM

### FFURFLEN TYNNU'N ÔL O DDEFNYDDIO GWYBODAETH FIOMETREG IMPACT BIOMETRICS OPT-OUT FORM

Llenwch y ffurflen isod a'i ddychwelyd i Swyddfa'r Ysgol/Please fill in this form and return to the School Office.

Nid wyf yn dymuno i'm mhlentyn gymryd rhan ym mhroses gofrestru ar gyfer y system Biometreg Heb Arian a hoffwn dderbyn cerdyn ar gyfer defnyddio'r system ddi-arian ar gyfer prydau ysgol.  
*I do not wish my child to be included in the Biometric registration process and I would like to receive a card to enable my child to use the cashless system for school meals.*

Enw'r Disgybl / Name of Pupil: \_\_\_\_\_

Blwyddyn/ Year: \_\_\_\_\_ Dosbarth / Class: \_\_\_\_\_

Enw Rhiant / Gwarcheidwad - Name of Parent / Guardian: \_\_\_\_\_

Llofnod Rhiant / Parent's Signature: \_\_\_\_\_

Llofnod Disgybl / Pupil's Signature: \_\_\_\_\_